Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri 2016 – 2031 - Archwiliad

NODIADAU CANLLAW AR GYFER CYNRYCHIOLWYR

Lleoliad:	Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd. LL48 6LF
Gwrandawiadau yn Cychwyn:	Dydd Mawrth 17 Gorffennaf 2018
Arolygydd:	Richard Duggan BSc(Hons) DipTP MRTPI
Swyddog y Rhaglen:	Mrs Rhian Randall
Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth:	Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LF
Ffôn:	01766 772203
Ebost	programmeofficer@eryri.llyw.cymru or swyddogrhaglen@eryri.llyw.cymru
Gwefan:	http://www.eryri.llyw.cymru/archwiliad

1. Cyflwyniad

1.1 Paratowyd y Nodiadau Canllaw hyn i gynorthwyo'r unigolion a'r cyfundrefnau hynny sydd eisiau cymryd rhan yn yr Archwiliad i gadernid Arolwg Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri 2016 - 2031 (y 'Cynllun'). Mae arolwg o gynllun datblygu lleol yn ofyniad Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

1.2 Daeth Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cynllun Adneuo i ben ar 30 Awst 2017. Mae'r Awdurdod wedi cadarnhau y derbyniwyd rhyw 216 o sylwadau gan 41 ymatebwr gwahanol o fewn y cyfnod 6 wythnos a bennwyd ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Adneuo. Yn ychwanegol, derbyniwyd 72 o sylwadau oddi wrth 11 sylwebyddion gwahanol mewn ymateb i'r Newidiadau Ffocws arfaethedig.

Arolygydd a Swyddog y Rhaglen

2.1 Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi penodi Richard Duggan i gynnal yr Archwiliad i'r cynllun diwygiedig, gan gynnwys priodoldeb y newidiadau arfaethedig yn wyneb y sylfaen tystiolaeth a chadernid parhaus y Cynllun.

2.2 Y Swyddog Rhaglen ar gyfer yr Archwiliad yw Mrs Rhian Randall. Mae hi'n gweithredu fel swyddog annibynnol ar gyfer yr Archwiliad, dan gyfarwyddyd yr Arolygydd. Hi fydd yn gyfrifol am drefnu'r rhaglen o wrandawiadau, cynnal Llyfrgell yr Archwiliad, cofnodi a dosbarthu'r holl ddeunyddiau a dderbyniwyd a chynorthwyo'r Arolygydd gyda materion trefniadol a gweinyddol. Bydd yn cynghori ar unrhyw ymholiadau rhaglenni a threfniadol. Dylid anfon unrhyw faterion y mae'r Awdurdod neu gyfranogwyr eraill eisiau eu codi gyda'r Arolygydd at y Swyddog Rhaglen. Mae ei manylion cyswllt wedi eu nodi ar glawr blaen y nodiadau hyn.

3. Pwrpas yr Archwiliad

3.1 Pwrpas yr Archwiliad yw ystyried y newidiadau a gyflwynwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i'r Cynllun ac a yw'r rhain yn arwain at gadernid parhaus y Cynllun. Mae'n bwysig nodi bod yr "Archwiliad" yn ymwneud â'r broses gyfan o arolygu'r Cynllun, o adeg cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru i gyflwyno adroddiad yr Arolygwyr i'r Awdurdod.

3.2 Y man cychwyn ar gyfer yr Archwiliad yw'r dybiaeth bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cyflwyno'r hyn a ystyria yn newidiadau priodol i'r cynllun a'i fod, o ganlyniad i'r

newidiadau, yn parhau i fod yn gynllun cadarn. Wrth ystyried y newidiadau arfaethedig a chadernid y cynllun, rhaid i'r Arolygydd ystyried y sylwadau a wnaed, ond dim ond cyn belled ag y maent yn ymwneud â phrofion cadarnid a bennwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru. Nid oes angen i'r Arolygydd ystyried pob un o'r pwyntiau a wnaed ym mhob gwrthwynebiad nac adrodd arnynt.

3.3 Mae'r Archwiliad yn ymwneud yn unig ag elfennau'r cynllun y cynigir eu newid, ac mae'r pynciau a ddewiswyd ar gyfer trafodaeth yn deillio o'r newidiadau i'r cynllun, y profion cadernid a'r sylwadau a wnaed yn y cyfnodau adneuo a chyflwyno. Ni fydd yr Archwiliad yn ystyried sylwadau y tu allan i gwmpas y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun, ac ni fydd 'chwaith, yn ystyried pob mater a gynhwyswyd ynddynt; yn hytrach bydd yn canolbwyntio ar faterion allweddol. Nid yw polisïau, testun, tablau, mapiau a ffigurau sydd heb newid, sy'n amlwg y tu allan i gwmpas adolygiad y cynllun yn destun Archwiliad ac ni fyddant yn cael eu trafod onid yw'n ymddangos bod newid arfaethedig â goblygiadau sy'n awgrymu bod angen newid rhan arall o'r Cynllun.

3.4 Bydd yr Archwiliad yn ystyried cymhwysiad a goblygiadau polisi cenedlaethol cyn belled ag y mae'n effeithio'r meysydd a'r pynciau a ddaw dan y newidiadau i'r Cynllun. Mae'n bwysig nodi hefyd mai pwrpas y gwrandawiadau yw nid i ddelio gyda phob pwynt ym mhob gwrthwynebiad a wnaed i'r Cynllun, ond i ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â chadernid y Cynllun, gan dalu sylw i'r pwyntiau a godwyd yn y sylwadau.

3.5 Ar ôl i'r Archwiliad ddod i ben, bydd yr Arolygydd yn cyflwyno ei adroddiad i'r Awdurdod gyda'i gasgliadau ac argymhellion rhwymol ar y newidiadau sydd eu hangen i wneud y Cynllun diwygiedig yn un cadarn. Rhaid i'r Awdurdod newid y Cynllun yng ngoleuni'r argymhellion hyn a symud yn gyflym i'w fabwysiadu'n ffurfiol.

3.6 Mae canllawiau a chyngor pellach i'w weld ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW) a chyfarwyddyd a gynhyrchwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio, sydd ar gael ar ei gwefan. O ran dogfennau a gyhoeddwyd, dylai'r holl gyfranogwyr fod yn gyfarwydd gyda: PCC, Pennod 2 (Awst 2015) a Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol Rhifyn 2.

3.7 Y Profion Cadernid yw:

1. A yw'r cynllun yn ffitio? (h.y. a yw'n glir bod y Cynllun Datblygu Lleol yn gyson â chynlluniau eraill);

2. A yw'r cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth), a
3. A fydd y Cynllun yn cyflenwi (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

4. Dulliau o ystyried sylwadau

4.1 Mae dwy brif ffordd y bydd sylwadau ar y newidiadau i'r Cynllun yn cael eu hystyried:

- Sylwadau ysgrifenedig – yn seiliedig ar y sylwadau gwreiddiol, gydag ymateb, os oes angen, gan yr Awdurdod. Efallai y bydd yr Arolygydd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol er mwyn esbonio. Caiff y rhan fwyaf o'r sylwadau eu hystyried fel hyn. Nid yw sylwadau ysgrifenedig yn cael eu trafod yn y gwrandawiadau ac nid oes angen mynychu sesiynau'r gwrandawiad;
- Gwrandawiadau – yr Awdurdod a chyfranogwyr eraill yn trafod y prif bwyntiau ar y materion allweddol a adnabuwyd gan yr Arolygydd mewn trafodaeth strwythuredig a gwybodus.

4.2 Mae'r ddau ddull yn cyfrif yr un fath a bydd yr Arolygydd yn rhoi ystyriaeth gyfartal i sylwadau llafar ac ysgrifenedig.

4.3 Mae rhai ymatebwyr nad ydynt wedi nodi dymuniad o ran y dull yr hoffent i'w sylwadau gael eu hystyried. Yn yr achosion hyn, tybir eu bod yn dymuno mynd ymlaen gyda dull sylwadau ysgrifenedig oni hysbysir Swyddog y Rhaglen fel arall erbyn **1 Mehefin 2018**. Mae'n bwysig nodi mai dim ond y cynrychiolwyr hynny sy'n ceisio newidiadau penodol i newidiadau arfaethedig yr Awdurdod i'r Cynllun sydd â hawl i gymryd rhan yn sesiynau gwrandawiad yr Archwiliad. Nid oes gan gefnogwyr y newidiadau arfaethedig hawl i gymryd rhan yn sesiynau'r gwrandawiad.

Safleoedd Amgen

4.4 Dylai strategaeth, polisïau a dyraniadau Cynllun Datblygu Lleol fod yn realistig ac yn briodol ar ôl ystyried opsiynau amgen perthnasol a'u seilio ar sylfaen tystiolaeth cadarn. Mae'n debygol y bydd nifer o ddulliau yr un mor ddilys y gall awdurdod cynllunio lleol ddiwallu anghenion ei gymunedau. Mae angen i awdurdod cynllunio lleol gynhyrchu cynllun sy'n gadarn. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu ei fod yn cyflwyno'r ateb gorau, ac nid rôl yr Arolygydd yw gwneud cynllun cadarn yn well.

4.5 Bydd yr Arolygydd yn cychwyn o'r sefyllfa bod yr Awdurdod yn ystyried bod ei newidiadau arfaethedig, gan gynnwys dyraniadau newydd, yn gadarn. Ni fydd yr Arolygydd yn edrych y tu hwnt i'r newidiadau a'r dyraniadau newydd oni ddaw i gasgliad gwahanol.

4.6 Bydd ffocws yr archwiliad ar a oes digon o safleoedd wedi eu dyrannu y gellir eu cyflawni i ddiwallu'r angen a adnabuwyd. Gall hyn olygu edrych ar gadernid safleoedd unigol lle mae angen. Caiff hyrwyddwyr safleoedd amgen ddefnyddio eu hawl i gael eu clywed a chyflwyno dadl ar y materion hyn ond ddim i hyrwyddo manteision eu safle eu hunain.

4.7 Nid oes angen i arolygwyr ystyried pob pwynt a wneir ac nid oes angen iddyn nhw 'chwaith adrodd ar safleoedd amgen unigol. Dim ond os cesglir bod angen safleoedd ychwanegol i ddiwallu'r gofyn am dai neu os nad yw'r safleoedd arfaethedig yn gadarn y bydd yr Arolygydd yn gofyn i'r ACLl gyflwyno rhai amgen ac ystyried yr angen am wrandawiadau ychwanegol.

5. Y Drefn yn Sesiynau Gwrandawiad yr Archwiliad

5.1 Bydd sesiynau gwrandawiad yr Archwiliad yn cychwyn am 10 am ar ddydd Mawrth 17 Gorffennaf 2018. Bydd sesiynau dilynol fel rheol yn cychwyn am 9.30 am gydag egwyl i ginio tua 1.00 pm. Bydd sesiynau'r prynhawn yn cychwyn am 2.00 pm.

5.2 Bydd y sesiynau ar ffurf trafodaeth a arweinir gan yr Arolygydd. Caiff y sawl sy'n mynychu ddod â chynrychiolwyr swyddogol gyda nhw a gofyn cwestiynau, ond nid fydd cyflwyno tystiolaeth ffurfiol, croesholi na chyflwyniadau ffurfiol. Nid oes angen i gyfranogwyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol.

5.3 Cyn y sesiynau, bydd yr Arolygydd yn pennu rhaglen gyda phwyntiau trafodaeth ar gyfer pob pwnc. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y materion a nodwyd yn y rhaglen a'r cwestiynau a ofynnwyd. Bydd yr Arolygydd yn dechrau trwy wneud ychydig o sylwadau cryno ar y materion i'w trafod, cyn gwahodd cyfranogwyr i wneud eu cyfraniad i'r drafodaeth. Bydd y sesiwn yn mynd rhagddi dan arweiniad yr Arolygydd, yn dod â chyfranogwyr i mewn i'r drafodaeth mewn modd sy'n ei alluogi i gael yr wybodaeth angenrheidiol i ddod i gasgliad cadarn ar y materion perthnasol.

5.4 Bydd cyfranogwyr yn derbyn unrhyw ddatganiadau a wahoddir gan yr Arolygydd a dylai cynrychiolwyr ymgyfarwyddo ag unrhyw sylwadau sy'n berthnasol i sesiynau gwrandawiad penodol. Cynhelir y gwrandawiadau ar y sail bod pawb sy'n cymryd rhan

wedi darllen y dogfennau perthnasol, er y bydd cyfranogwyr yn medru cyfeirio at ac ymhelaethu ar bwyntiau perthnasol, fel y bo angen.

5.5 Bydd yr Arolygydd yn cynnal sesiynau'r gwrandawiad mewn dull effeithlon ac effeithiol, gan gadw llaw gadarn ar y trafodaethau a'r amser a gymerir. Fel rhan o'r broses honno, byddant yn anelu at leihau faint o ddeunydd sydd ei angen i ddod i gasgliad gwybodus ar y materion.

6. Rhaglen Archwilio

6.1 Gwneir pob ymdrech i gadw at y rhaglen, ond efallai na ellir osgoi newidiadau hwyr. Bydd Swyddog y Rhaglen yn hysbysu cyfranogwyr o unrhyw newidiadau hwyr i'r amserlen, ond cyfrifoldeb y cyfranogwyr fydd diweddaru eu hunain gyda'r trefniadau a'r rhaglen.

7. Paratoi a chyflwyno deunydd pellach

7.1 Mae'r Awdurdod wedi paratoi rhestr o Ddogfennau Cyflwyno, sydd ar gael i'w gweld yn Llyfrgell yr Archwiliad a hefyd yn electronig ar wefan yr Archwiliad. Bydd y Llyfrgell hefyd yn cynnwys polisi a chyfarwyddyd cenedlaethol, Papurau Cefndir ac unrhyw ddogfennau eraill y mae'n debygol o gyfeirio atynt. Dylai'r rhestr hon o Ddogfennau Ategol gynrychioli sylfaen tystiolaeth llawn yr Awdurdod ar gyfer yr Archwiliad. Dylai cyfranogwyr sicrhau bod unrhyw ddogfennau y maen nhw'n bwriadu cyfeirio atynt yn y rhestr o Ddogfennau Craidd, a dylent drefnu bod unrhyw ddogfennau o'r fath yn cael eu hanfon at Swyddog y Rhaglen (bydd angen tri chopi). Dylai cynrychiolwyr wirio'r rhestr yn rheolaidd gan ei bod yn debygol o fynd yn hirach wrth i'r Archwiliad fynd rhagddo.

8. Cyflwyno datganiadau ysgrifenedig pellach a deunydd arall

8.1 Dylai'r sylwadau sydd wedi eu gwneud eisoes gynnwys yr holl bwyntiau, dogfennau a thystiolaeth sydd eu hangen i gefnogi achosion y cynrychiolwyr. Felly, ni ddylai fod angen cyflwyno unrhyw ddeunydd pellach yn seiliedig ar y sylwadau gwreiddiol. Nodwch, er bod cynrychiolwyr efallai wedi gwneud sylwadau mewn cyfnodau cynharach o broses y cynllun, dim ond copïau o sylwadau a wnaed ers pan adneuwyd y Cynllun diwygiedig fydd gan yr Arolygydd.

8.2 O nawr ymlaen, dylai holl sylwadau ysgrifenedig ddelio â'r materion a'r pynciau ar gyfer yr Archwiliad a adnabwyd gan yr

Arolygydd. Rhaid i'r Awdurdod a'r sawl sy'n gwneud sylwadau ar y pynciau hyn ymateb i'r cwestiynau hyn mewn datganiad a gyflwynwyd dim llai na **21 Mehefin 2018.**

8.3 Dylai datganiadau pellach gan gyfranogwyr ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r Arolygydd:

- Pa ran benodol o'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun nad yw'n gadarn? (polisi / paragraff / tudalen y Cynllun)
- Pa brawf/brofion cadernid, a nodwyd ym mharagraff 2.5.11 PCC, mae'n ei fethu?
- Pam y mae'n methu?
- Sut ellid gwneud y Cynllun yn gadarn?
- Beth yw'r union newid/eiriad a geisir?

8.4 Gan yr Awdurdod, mae'r Arolygydd angen ymateb cyffedinol i'r sylwadau ar bob pwnc, gan nodi pam eu bod yn ystyried y newidiadau arfaethedig a bod y Cynllun yn gadarn o ran hynny a pham, os yw'n berthnasol, fyddai'r newidiadau a geisir gan bartïon eraill yn ei golygu na fyddai'n gadarn.

8.5 Dylai'r holl sylwadau nodi elfennau sylfaenol yr achosion, gan nad yw'r gwrandawiadau yn lle ar gyfer pwyntiau newydd neu gyflwyno tystiolaeth am y tro cyntaf. Dylai datganiadau gan gynrychiolwyr ganolbwyntio ar y materion a adnabuwyd gan yr Arolygydd i'r graddau y maent yn berthnasol i'w sylwadau. Nid oes angen paratoi datganiad gwrandawiad pellach os yw'r holl bwyntiau wedi eu trin eisoes yn y sylwadau gwreiddiol, ond gofynnir i gyfranogwyr hysbysu Swyddog y Rhaglen os nad ydynt yn bwriadu cyflwyno datganiad pellach.

8.6 Dylai cyfranogwyr geisio dod i gytundeb ar faterion ffeithiol ac ystadegau cyn i'r gwrandawiadau ddechrau ac anogir pawb i gynnal dialog gyda'r Awdurdod a chyfranogwyr eraill cyn y gwrandawiadau. Gall Datganiadau o Dir Cyffredin fod yn ffordd ddefnyddiol o leihau'r materion lle mae anghydfod a dylid eu cyflwyno o fewn yr amserlen a amlinellwyd uchod.

8.7 Bydd Swyddog y Rhaglen angen 4 copi[1] o bob datganiad. Ni ddylai datganiadau fod yn hirach na 3,000 gair ar gyfer pob mater neu bwnc. Gellir dychwelyd datganiadau sy'n rhy hir neu sy'n cynnwys deunydd amherthnasol neu sy'n ail-adrodd. Dylid cyfyngu tystiolaeth dechnegol i atodiadau, a dylai fod â chysylltiad clir â'r achos. Dylid cyfyngu deunydd ategol i'r hyn sy'n hanfodol ac nid oes angen iddo gynnwys darnau o

[1] Dim ond 2 gopi os oes fersiwn electronig hefyd.

ddogfennau sydd eisoes yn Llyfrgell yr Archwiliad. Nid oes angen datganiadau crynhoi. Dylai datganiadau fod ar bapur A4, gyda dau dwll ar gyfer ffeilio, a heb eu rhwymo. Dylai cynlluniau neu ddiagramau blygu i lawr i faint A4. Dylid marcio pob datganiad gyda rhif cyfeirio Cynrychiolaeth yr Awdurdod, a dylid eu cyflwyno ar ffurf electronig hefyd, os yn bosibl.

8.8 Dylai'r holl gyfranogwyr lynu at yr amserlen ar gyfer cyflwyno datganiadau pellach. Nid yw'n debygol y derbynnir cyflwyniadau hwyr a phapurau ychwanegol, oherwydd gall hyn amharu ar y broses ac arwain at annhegwch, a gallai arwain at ohirio'r gwrandawiad.

9. Argaeledd gwybodaeth

9.1 Bydd Swyddog y Rhaglen yn cynnal Llyfrgell Archwiliad yn Swyddfa'r Rhaglen ac arlein ar wefan yr Archwiliad. Bydd hefyd yn cynnwys copïau o'r Cynllun a dogfennau cysylltiedig, holl sylwadau, y Cyflwyniad a Dogfennau Ategol a sylwadau a datganiadau pellach, fel y'u derbyniwyd. Swyddog y Rhaglen fydd yn goruchwylio'r Llyfrgell, a bydd yn cynorthwyo unrhyw un sydd eisiau gweld a chopïo unrhyw ddogfen, cyn belled ag y rhoddir rhybudd rhesymol ymlaen llaw.

9.2 Bydd Swyddog y Rhaglen yn cadw rhestri o'r holl ddogfennau a gyflwynwyd. Bydd rhestr o ddogfennau, y Rhaglen ddiweddaraf ar gyfer sesiynau gwrandawiad yr Archwiliad a deunydd perthnasol arall yn cael ei arddangos ar hysbysfwrdd yr Archwiliad yn y lleoliad yn ystod sesiynau'r gwrandawiad. Bydd yr wybodaeth berthnasol hefyd ar wefan yr Awdurdod. Dylai unrhyw un sydd angen cymorth neu gyfleusterau arbennig ar gyfer pobl anabl gysylltu â Swyddog y Rhaglen ymlaen llaw i alluogi gwneud y trefniadau priodol.

10. Trefniadau ymweld â safle

10.1 Bydd yr Arolygydd yn ymgymryd â thaith o'r Parc Cenedlaethol i gyfarwyddo ei hun â'r ardal, gan ymweld â mannau a grybwyllir yn y sylwadau, ar ei ben ei hun. Os nad yw safle i'w weld o briffordd neu fan cyhoeddus arall **efallai** y bydd angen i'r Arolygydd fynd ar y safle gyda chynrychiolydd y tirfeddiannwr a'r Awdurdod. Ni fydd cyfle i wneud unrhyw sylwadau i'r Arolygydd yn ystod ymweliad o'r fath.

11. Gorffen yr Archwiliad

11.1 Bydd yr Archwiliad yn aros ar agor nes cyflwynir adroddiad yr Arolygydd i'r Awdurdod. Fodd bynnag, ni fydd yr Arolygydd yn derbyn unrhyw sylwadau na thystiolaeth bellach ar ôl i sesiynau'r gwwrandawiad ddod i ben, oni fyddant yn benodol yn gofyn am wybodaeth bellach. Mae unrhyw ddeunydd hwyr neu nas gofynnwyd amdano yn debygol o gael ei ddychwelyd.

12. Cyflwyno Adroddiad yr Arolygydd i'r Awdurdod

12.1 Ar ôl i'r Archwiliad ddod i ben, bydd yr Arolygydd yn cyflwyno ei adroddiad gydag argymhellion rhwymol i'r Awdurdod. Bydd y dyddiad cyflwyno yn dibynnu ar gynnwys, cwmpas a chyfnod yr Archwiliad, a bydd yr Arolygydd yn cadarnhau'r dyddiad tebygol ar ddiwedd sesiynau gwrandawiad yr Archwiliad.